BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# Diweddariad Gwanwyn 2022

## Gwybodaeth am Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro (RPB)

Mae'r RPB yn cyfarfod yn chwarterol ac mae'n cynnwys Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y trydydd sector a'r sector annibynnol a chynrychiolwyr gofalwyr. Ein nod yw gwella iechyd a lles y boblogaeth a sut y caiff gwasanaethau iechyd a gofal eu darparu.

Hoffem estyn ein diolch i'n Cadeirydd sy'n gadael, Ben Gray, sydd wedi rhannu ei arbenigedd ac wedi helpu i arwain ein gwaith ers Ebrill 2021. Croeso cynnes iawn i'r Cynghorydd Edward (Eddie) Williams, Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, a fydd yn cadeirio'r RPB o'n cyfarfod ym mis Hydref 2022 ymlaen.

## Fforwm Gwerth Cymdeithasol





Cyflwynodd Sheila Hendrickson-Brown Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Trydydd Sector Caerdydd a Rachel Connor Prif Swyddog Gweithredol, Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg y cynlluniau y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn gweithio arnynt i ailddatblygu ei Fforwm Gwerth Cymdeithasol. Bydd hyn yn hyrwyddo:

- Datblygu mentrau cymdeithasol a sefydliadau cydweithredol i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol;
- Cynnwys pobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth neu ataliol yn y gwaith o ddylunio a gweithredu'r gwasanaethau hynny;
- Argaeledd gwasanaethau gofal a chymorth ac ataliol gan fudiadau trydydd sector
- Roedd yr Aelodau am sicrhau bod y Fforwm yn cael ei ailsefydlu gyda rôl ystyrlon, maent am sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn cael ei integreiddio i waith yr RPB a gwerthuso effaith buddsoddi yn y maes hwn.

Roedd yr Aelodau am sicrhau bod y Fforwm yn cael ei ailsefydlu gyda rôl ystyrlon, maent am sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn cael ei integreiddio i waith yr RPB a gwerthuso effaith buddsoddi yn y maes hwn.

Yn ogystal, bydd Is-gadeirydd yn cael ei benodi o blith ein haelodau anstatudol er mwyn cryfhau rôl y sector hwn ymhellach o fewn yr RPB.

**Os hoffai unrhyw sefydliadau fynegi diddordeb mewn ymuno â'r fforwm, e-bostiwch hsc.integration@wales.nhs.uk gyda'r llinell pwnc 'Fforwm Gwerth Cymdeithasol'.**

CARDIFF CAERDYDD · C3SC Cardiff Third Sector Council Cyngor Trydydd Sector Caerdydd · GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board · GVS Empowering people. Inspiring excellence. Strengthening communities. Grymuso pobl. Ysbrydoli rhagoriaeth. Cryfhau cymunedau. · VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG · GIG CYMRU NHS WALES Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Welsh Ambulance Services NHS Trust

## Gofynion Cynllunio Cyfalaf ar gyfer 2022-23 ymlaen



Rhoddodd Cath Doman, Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr RPB, ddiweddariad i'r Bwrdd ar ganllawiau ynghylch y cynllun buddsoddi cyfalaf strategol sydd, ochr yn ochr â'r Cynllun Ardal, i'w gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2023.

Mae'r canllawiau wedi cadarnhau y dylai RPBs ddod â phartneriaid at ei gilydd i ystyried buddsoddiad cyfalaf o'r meysydd polisi canlynol er mwyn creu aliniad strategol a gwerth gorau:

- Mae'r canllawiau wedi cadarnhau y dylai RPBs ddod â phartneriaid at ei gilydd i ystyried buddsoddiad cyfalaf o'r meysydd polisi canlynol er mwyn creu aliniad strategol a gwerth gorau:
- Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- Tai â Gofal;
- Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu — Ysgolion Cymunedol fel rhan o'r buddsoddiad blynyddol mewn ysgolion a cholegau;
- Cronfa Cyfalaf Iechyd;
- Cronfa Gyfalaf Camddefnyddio Sylweddau;
- Adfywio.

Bydd is-grwpiau cynllunio cyfalaf ag arbenigedd perthnasol gan sefydliadau partner yn cael eu sefydlu i ddatblygu'r gwaith hwn.

## Grwpiau Cynllunio Clystyrau Cyfan

Mae gwaith clwstwr wedi'i hen sefydlu ledled Cymru. Mae clystyrau'n dod â'r holl wasanaethau ac adnoddau lleol at ei gilydd i gyflawni'r budd mwyaf i'r bobl yn yr ardal y maent yn ei chwmpasu. Mae ganddynt ddull cymunedol sy'n seiliedig ar anghenion. Cefnogir y gwaith hwn gan rwydweithiau ehangach o arbenigedd clinigol a rheolaethol. Mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall anghenion lleol ac i ddatblygu atebion sy'n effeithiol yn y cyd-destun lleol.



Arweiniodd Lisa Dunsford, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Bwrdd Clinigol PCIC, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyflwyniad am gyflymu datblygiad clystyrau i adeiladu ar lefel fwy strategol drwy Grwpiau Cynllunio Clystyrau Cyfan (PCPGs) a fydd yn dod â sefydliadau perthnasol ar draws y rhanbarth at ei gilydd.

Roedd y cyflwyniad yn nodi'r cerrig milltir allweddol ar gyfer cyflawni yn y cyfnod 2022/23 sy'n cynnwys:

- Ebrill 2022 - Byrddau Iechyd a phartneriaid Awdurdodau Lleol yn sefydlu Grwpiau Cynllunio Clystyrau Cyfan [PCPG], Cylch Gorchwyl yn cael ei fabwysiadu a dull llywodraethu PCPG yn cael ei ymgorffori yn y bensaernïaeth leol.
- Ebrill i Fedi 2022 - Sefydlu Cydweithrediadau Proffesiynol yn ôl troed pob clwstwr ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Fferylliaeth Gymunedol, Optometreg, Nyrsio Cymunedol, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP). Gall y rhestr hon ehangu.

Trafododd yr RPB yr angen i'r grwpiau newydd hyn gael eu hintegreiddio i fforymau a strwythurau sefydledig.

# Y newyddion diweddaraf

## Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022-27

Cyhoeddwyd Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg ar 1 Ebrill 2022. Defnyddiwyd data ac adroddiadau presennol i lywio'r asesiad, ochr yn ochr â gwaith ymgysylltu pwrpasol ar ffurf arolygon (ar gyfer y cyhoedd, plant a phobl ifanc, pobl yng Ngharchar EM Caerdydd, a gweithwyr proffesiynol/darparwyr) a grwpiau ffocws. Mae'r Adroddiad yn nodi anghenion pobl ein rhanbarth ac argymhellion yn dangos sut y caiff yr anghenion hyn eu diwallu orau. Cliciwch yma am fwy o wybodaeth ac i ddarllen crynodeb a'r Adroddiad llawn.

Cefnogodd yr RPB raglen dreigl o waith ymgysylltu i barhau i gasglu data ansoddol i ddiweddaru'r wybodaeth yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Bydd y Fframwaith Canlyniadau Rhanbarthol yn casglu data meintiol parhaus a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio gwaith cynllunio a gwerthuso.



## Edrych tua'r dyfodol: Cynllun Ardal

Ar 30 Mawrth 2023 byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Ardal a fydd yn nodi ein hymateb i'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r bylchau a nodwyd yn yr Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (i'w gyhoeddi ar 30 Mehefin 2022). Bydd hyn yn cynnwys:

- Camau gweithredu i gyflawni meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio ar gyfer RPBs
- Manylion y cronfeydd cyfun sydd i'w sefydlu
- Dull caffael neu gyflenwi, gan gynnwys drwy fodelau cyflenwi amgen
- Gwasanaethau ataliol a fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu
- Camau gweithredu sy'n ymwneud â gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Camau gweithredu sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynlluniau ar gyfer pob maes blaenoriaeth

Cliciwch yma i ddarllen ein Cynllun Ardal cyfredol

## Cadw mewn cysylltiad

**Cysylltwch â'r RPB**

**Dilynwch ni ar Twitter @RPB_CAV**

**Hoffwch ni ar Facebook @RPBCAV**

**Mae croeso i chi rannu'r diweddariad hwn gydag eraill y gallai fod ganddynt ddiddordeb yn ein gwaith.**

Cardiff Caerdydd | C3SC Cardiff Third Sector Council Cyngor Trydydd Sector Caerdydd | GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board | GVS | Vale of Glamorgan Bro Morgannwg | GIG Cymru NHS Wales Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Welsh Ambulance Services NHS Trust